# Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr




**Y myth** Mae Iechyd a diogelwch yn gwahardd baneri

**Y gwirionedd** Nid oes unrhyw reoliadau yn gwahardd pobl rhag hongian baneri mewn priodasau a ffeiriau pentref na'u codi ar gyfer digwyddiadau chwaraeon.

Mae HSE yn annog pobl i ddefnyddio ychydig o synnwyr cyffredin am eu hagweddau at risg, i beidio â cheisio osgoi pob risg. Ni fydd byddin o arolygwyr yn torri baneri nac yn mynnu eu bod yn cael eu tynnu i lawr.

Mae HSE yn bodoli i atal pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn y gwaith, nid i rwystro pobl rhag dathlu mewn steil.